**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** **4ydd GORFFENNAF 2018**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MEHEFIN 2018**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**4. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN (B5119 FFORDD DYSERTH, BRON HAUL A PEN Y MAES AVENUE, Y RHYL) (GWAHARDD AROS) 201**

Derbyn yr ymgynghoriad uchod (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am farn y Cyngor Tref ar y gorchymyn traffig arfaethedig.

**5. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN PARCIO ODDI AR Y STRYD, 201 QUEEN STREET, Y RHYL – MAES PARCIO NEWYDD ARFAETHEDIG, DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFORDD 1984.**

Derbyn yr ymgynghoriad uchod (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am farn y Cyngor Tref ar y gorchymyn parcio oddi ar y stryd arfaethedig.

**6. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – UWCHGYNLLUN CANOL Y DREF Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 119 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Chwefror 2018, derbyn manylion gweithdy i'w gynnal ar 17eg Gorffennaf 2018 yn Neuadd y Dref y Rhyl rhwng 13:30 a 16:30 neu 17:30 hyd at 20:30.

**7. GOHEBIAETH: CYNGOR YSGOL EMANIWEL**

Derbyn gohebiaeth (copi'n amgaeëdig) gan Gyngor Ysgol Emaniwel yn gofyn am gymorth i gyflwyno system unffordd yng nghyffiniau'r ysgol.

**8. GOHEBIAETH: CYNGOR SIR DDINBYCH – ARCHWILIAD MANNAU AGORED SIR DDINBYCH - CASGLIADAU**

Ymhellach i gofnod rhif 51 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Medi 216 (archwiliad ac asesiad o Fannau Agored yn Sir Ddinbych), derbyn gohebiaeth (copi'n amgaeëdig) yn hysbysu bod y ddogfen ddrafft derfynol nawr ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac y byddai'n llywio penderfyniadau yn y dyfodol yn ymwneud â Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych a chytundebau Adran 106 yn deillio o ddatblygiadau (bydd copïau o'r ddogfen ar gael yn y cyfarfod).

**9. GOHEBIAETH: CHRIS RUANE AS**

Penderfynu ar ohebiaeth gan Chris Ruane AS (copi'n amgaeëdig) yn argymell bod y Cyngor Tref yn derbyn cyflwyniad gan Raglen NYTH Llywodraeth Cymru.

**10. DYDDIAU PARCIO AM DDIM CYNGOR SIR DDINBYCH**

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref mewn perthynas â'r pum diwrnod parcio am ddim a ddyrennir i Gynghorau Tref a Chymuned ledled Sir Ddinbych.

**11. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**13. EITEMAU CYFRINACHOL GAN YR AELODAU**

**[Cafodd yr eitem hon ei goihirio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin 2018]**

Y Cynghorydd A. S. Johnson – Gofyn i'r Cyngor ystyried anfon sylwadau at Gyngor Sir Ddinbych i ystyried posibilrwydd yr awdurdod yn prynu adeilad penodol ar Stryd Fawr y Rhyl.

**14. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.